# Ymladd yn erbyn trosedd

Mae cael heddlu i ddelio gyda throsedd yn syniad da iawn, ond yw e?

Ond synnech chi faint o amser gymrodd hi i ddod i'r casgliad hwn.

Yn yr 16eg ganrif, doedd dim heddlu o gwbwl. Roedd pawb yn plismona ei gilydd.

Roedd rhai pobl, fel Cwnstabliaid y Plwy, yn gorfod cadw trefn yn ddi-dâl a hyn ynghyd â'u swyddi arferol ... a doedd hynny ddim yn plesio llawer.

A gyda'r nos, gwarchodwyr oedd yn patrolio'r strydoedd. Yn 1663, gwnaeth Siarl II hi'n orfodol i gael gwarchodwyr ym mhob tref, felly dechreuodd pobl eu galw'n 'Charlies'.

Weithiau roedden nhw'n hen ac yn ddiog ... yn cysgu neu yn y dafarn yn ystod oriau gwaith.

Gyda braidd dim gwelliannau, parhaodd y ffordd ddi-drefn yma o orfodi'r gyfraith tan 1749, pan dderbyniodd y brodyr John a Henry Fielding arian gan y Llywodraeth i sefydlu 'Ceidwaid Bow Street', neu'r 'Bow Street Runners'.

(O'n nhw'n rhedeg ond 'sdim ishe mynd dros ben llestri.)

Chwech dyn yn cario gefynnau, pistol a ffon yr un oedd rhein.

Roedden nhw'n derbyn cyflog yn ogystal â chomisiwn am bob arestiad.

Dros y degawdau, tyfodd Ceidwaid Bow Street i fod yn dîm o 68 o ddynion.

Ysbrydolodd hyn y Llywodraeth i sefydlu'r Heddlu Metropolitan yn Llundain yn 1829. Roedd 3200 o ddynion yn gweithio'n llawn amser yno. Roedd hyn yn llwyddiant ysgubol, a chyn pen dim roedd heddlu i'w gweld ym mhob cwr o'r wlad.

Ond beth oedd agwedd y cyhoedd tuag at yr heddlu?

Roedd yn gas gan lawer o'r dosbarth gweithiol fod yr heddlu yn ymyrryd, a theimlai nifer yn ddig bod rhaid talu trethi uwch i gynnal yr heddlu.

Ond roedd y cyhoedd yn dal i gofio cyflafan Peterloo yn 1819. Fe welon nhw yn union beth sy'n digwydd pan mae'r fyddin yn ymateb i wrthryfela treisgar – mae pobl gyffredin yn cael eu lladd.

Felly, daeth llawer i'r casgliad bod yr heddlu'n ddewis gwell.


© Hawlfraint BBC

Yn raddol, derbyniodd pobl yr heddlu fel rhan o’r gymdeithas Brydeining.

Erbyn dechrau’r 20fed ganrif, roedd technoleg yn gwella gwaith yr heddlu – fel y telegraff, cymryd olion bysedd a thynnu lluniau o safleoedd trosedd. Roedd trafnidiaeth well hefyd yn help. Dechreuodd yr heddlu ar droed, cyn mynd ati i ddefnyddio ceffylau, beiciau, ceir a faniau terfysg.

Ganrif yn ddiweddarach, mae technoleg wedi trawsnewid yr heddlu ymhellach gyda chyfarpar isgoch, teledu cylch-cyfyng, synwyryddion metel a samplu DNA.

Mae gwell amrywiaeth o bobl yn yr heddlu heddiw.

Mae swyddogion yn dod o wahanol gefndiroedd ethnig a chymdeithasol, ac mae tipyn mwy o fenywod yn plismona.

Hefyd, mae mwy o arbenigedd heddiw gyda’r adran Ymchwiliadau Troseddol, yr uned wrth-derfysgaeth a’r uned gŵn.

Felly, ma’ pethe wedi newid … erm, dyle rhywun ddweud wrth y gwarchodwr sy’ ‘di bod yn y dafarn ers pum can mlynedd.


© Hawlfraint BBC